Ceidwad Cefn Gwlad

Cyfeirnod y swydd: PCCS00061D1SJE
Lleoliad: Gogledd Sir Ddinbych
Cyflog: Gradd 5 - £30,023 - £31,015
Oriau: 37 awr yr wythnos
Parhaol

Mae cyfle gwych wedi codi i ymuno â Thîm y Gwasanaeth Cefn Gwlad yng Ngogledd y Sir. Bydd deiliad y swydd yn datblygu rhaglenni a phrosiectau a fydd yn cyfrannu at reoli ystod eang o Safleoedd Cefn Gwlad yn effeithiol, gyda phwyslais penodol ar gadwraeth ymarferol, darparu mynediad i isadeiledd gwyrdd o ansawdd a bioamrywiaeth.

Bydd y swydd yn cynnig cyfleoedd i bobl a chymunedau gymryd rhan weithredol mewn rheoli, mwynhau a gwarchod eu hamgylchedd lleol. Mae'r swydd yn gofyn am ymgeisydd sydd wedi cwblhau cyfnod o astudio Rheolaeth Cefn Gwlad neu faes cysylltiedig.

Mae'r gallu i weithio gyda gwirfoddolwyr ac ymgysylltu gyda chymunedau yn hanfodol, yn ogystal â chyswllt naturiol â chefn gwlad a dealltwriaeth o'r egwyddorion sylfaenol sy'n effeithio'r gwaith o'i reoli. Mae medru'r Gymraeg yn ddymunol.

Penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu ac Atal a geirdaon boddhaol.

Os hoffech chi drafod unrhyw agwedd ar y swydd, ffoniwch Jim Kilpatrick ar 01745 356197.

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd wag hon, gwnewch gais ar-lein drwy ein gwefan: www.sirddinbych.gov.uk Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01824 706101.

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Dyddiad Cau: 01/12/2026

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i Gyfleoedd Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynir yn Saesneg.

Countryside Ranger

Job reference: PCCS00061D1SJE
Location: North Denbighshire
Salary: Grade 5 - £30,023 - £31,015
Hours: 37 hours per week
Permanent

An excellent opportunity has arisen to join the Countryside Service Team in the North of the County. The post holder will develop programmes and projects that will contribute to the effective management of a broad range of Countryside Sites and with specific emphasis on practical conservation, access provision to quality green infrastructure and biodiversity.

The post will provide opportunities for people and communities to become actively involved in the management, enjoyment and protection of their local environment. The post requires the applicant to have completed a period of study in Countryside Management or a related discipline.

The ability to work with volunteers and engage with communities is essential, together with a natural affinity for the countryside and an understanding of the underlying principles affecting its management. Knowledge of Welsh desirable.

Appointment subject to Disclosure & Barring Service Check and satisfactory references.

If you would like to discuss any aspect of the post, please call Jim Kilpatrick on 01745356197

If you are interested in this vacancy, please apply on-line via the website www.denbighshire.gov.uk. For alternative methods of applying please contact Customer Services on 01824 706101.

Candidates must complete our application form to be considered. We regret that we are unable to reply to all applications. If you have not received a reply within three weeks of the closing date, you must assume that you have not been short listed for interview.

Closing Date: 01/12/2026

Denbighshire County Council is committed to Equal Opportunities and its Welsh Language Standards. We welcome applications in the Welsh Language and application forms received in the Welsh Language will not be treated less favourably than an application form submitted in English.

SWYDD-DDISGRIFIAD CYNGOR SIR DDINBYCH

Teitl y Swydd:	**Ceidwad Cefn Gwlad (y Gogledd)**
Graddfa:	**5**
Gwasanaeth:	**Yr Amgylchedd**
Maes Gwasanaeth:	**Cefn Gwlad**
Yn atebol i:	**Uwch Geidwad (y Gogledd)**
Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi:	**03582**
Safonau'r Iaith Gymraeg	**Lefelau o ran sgiliau Cymraeg** **Lefel 1 dymunol**

Pwrpas y Swydd

Bydd deiliad y swydd yn helpu i ddatblygu rhaglenni a phrosiectau sy'n cyfrannu at Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli coetir a glaswelltir newydd yn effeithiol ar ystod eang o Safleoedd yn Sir Ddinbych. Bydd pwyslais penodol ar gadwraeth ymarferol a rheoli mynediad ac i ddarparu cyfleoedd i bobl a chymunedau ymwneud â rheoli a mwynhau'r dirwedd a sicrhau bod ei nodweddion allweddol yn cael eu cynnal.

Prif Gyfrifoldebau

1. Cychwyn, hwyluso a chydlynu prosiectau a fydd yn cyfrannu at reoli Safleoedd Cefn Gwlad yn effeithiol, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Cydweithio'n agos ac ymgynghori â sefydliadau partner, cymunedau lleol a thirfeddianwyr, gan sicrhau bod cyllideb dydd i ddydd y prosiectau hyn yn cael ei rheoli'n effeithiol.

2. Datblygu, monitro a chynnal prosiectau sy'n cynnwys nifer o safleoedd cefn gwlad, gyda phwyslais ar Barc Gwledig Castell Bodelwyddan, er lles bioamrywiaeth, mynediad, hamdden a chymunedau.

3. Darparu adroddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf am waith ar gais.

4. Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a gwarchodaeth o Gefn Gwlad Sir Ddinbych drwy sgyrsiau a theithiau cerdded i grwpiau cymunedol, busnesau ac ysgolion.

5. Sefydlu a chynnal cysylltiadau â chyrff a grwpiau allanol er mwyn hwyluso rheolaeth ymarferol o'r prosiectau a mwynhad ymwelwyr.

6. Cyfrannu at y Rhaglen Gwirfoddolwyr a rhaglen ddigwyddiadau Ar Grwydr.

7. Cyfrannu at Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor trwy gynyddu Atafaeliad Carbon y Cyngor o'r tir y mae'n berchen arno ac yn ei weithredu trwy blannu a chynnal coed a sefydlu glaswelltir llawn rhywogaethau.

8. Cyfrannu at y nod o ddod yn gyngor ecolegol gadarnhaol trwy warchod, rheoli ac adfer tir CSDd, yn ogystal â chreu gofodau newydd ar gyfer natur fel bod ecosystemau mor amrywiol, cysylltiedig ac mor fawr â phosibl o ran maint.

Adnoddau / Offer / Deunyddiau

- Cyllideb ardal uniongyrchol
- Cerbyd 4 WD fflyd y sir a bowser dŵr
- Offer arbenigol ar gyfer rheolaeth/cynnal a chadw effeithiol
- Safleoedd Awdurdod Lleol

Goruchwylio / Rheoli Pobl

- **Mewnol** - Bydd gofyn cydweithio â Gwirfoddolwyr ac unigolion ar leoliad, a'u goruchwylio
- **Allanol:-** ymwelwyr, ffermwyr, porwyr a thirfeddianwyr, sefydliadau, Cynghorau Cymuned, sefydliadau addysgol, gwirfoddolwyr, contractwyr a sefydliadau perthnasol eraill.

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

- Mae'r swydd yn gofyn am unigolyn gyda chymhwyster mewn Rheolaeth Cefn Gwlad a phrofiad o weithio yn y maes hwnnw.
- Mae'r gallu i uniaethu'n dda ac ymdrin â'r cyhoedd yn bwysig.
- Mae cysylltiad naturiol â Chefn Gwlad a dealltwriaeth o'r egwyddorion sylfaenol sy'n effeithio ar y modd y caiff ei reoli'n hanfodol.
- Mae gwybodaeth am gynefinoedd a thirwedd, cadwraeth a rheoli mynediad yn bwysig.
- Rhaid i ddeiliad y swydd allu gweithio'n unigol ac fel aelod o dîm, gyda phrofiad o hyfforddi a goruchwylio gweithwyr ac ysgrifennu adroddiadau. Mae medru'r Gymraeg yn ddymunol.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agenda newid hinsawdd

Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel;, 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth modern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelwch yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi yn ystod eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion camfanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff camfanteisio ei adnabod.

Gweledigaeth / Cyd-destun

Amgylchedd naturiol Sir Ddinbych yw ei hased mwyaf. Mae'r swydd hon yn ceisio gwarchod, cadw a gwella'r adnodd hwn trwy hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pawb sydd â diddordeb, darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol, cymorth ymarferol a darparu addysg a gwybodaeth. Mae hyn yn unol â chyfrifoldebau'r Awdurdod o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a deddfwriaeth berthnasol arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y swydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i Sir Ddinbych Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor a'i ymrwymiad i ddod yn gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

CYNGOR SIR DDINBYCH MANYLION AM YR UNIGOLYN

Mae'r Manylion yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

Teitl y Swydd:	**Ceidwad Cefn Gwlad (y Gogledd)**
Gwasanaeth:	**Yr Amgylchedd**
Graddfa:	**5**

MEINI PRAWF	**HANFODOL**	**DYMUNOL**	**DULL ASESU** Ffurflen Gais / Cyfweliad / Cyflwyniad / Geirda ac ati
1. ADDYSG A CHYMWYSTERAU	Rhaid bod wedi cwblhau cyfnod o astudio mewn maes sy'n ymwneud â Chefn Gwlad neu'r Amgylchedd - Gradd neu HND	Hyfforddiant ymarferol mewn cymorth cyntaf, sgiliau cadwraeth ymarferol	Ffurflen Gais, Cyfweliad, Geirdaon
2. PROFIAD PERTHNASOL	Profiad o waith cadwraeth ymarferol neu reoli tirwedd	Profiad o ddelio â'r cyhoedd	Ffurflen Gais, Cyfweliad, Geirdaon
3. GWYBODAETH A SGILIAU CYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD	Cysylltiaid â chefn gwlad a materion gwledig. Gwybodaeth dda am yr agenda newid hinsawdd.	Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr	Ffurflen Gais, Cyfweliad, Geirdaon
4. NODWEDDION PERSONOL	Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da Gallu gweithio'n dda mewn tîm	Gallu gweithio ar eich liwt eich hun	Ffurflen Gais, Cyfweliad, Geirdaon
5. GOFYNION ERAILL	Empathi â'r Gymraeg a Diwylliant Cymru Dangos sgiliau ardderchog o ran ymwneud â phobl	Gallu siarad Cymraeg	Ffurflen Gais, Cyfweliad, Geirdaon

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL JOB DESCRIPTION

Job Title:	**Countryside Ranger (North)**
Grade:	**5**
Service:	**Environment**
Service Area:	**Countryside**
Responsible to:	**Senior Ranger (North)**
Job ID Number / Date Issued:	**03582**
Welsh Language Standards	**Welsh Language Levels** **Level 1 desired**

Job Purpose

The post holder will help develop programmes and projects that contribute to the Council's Climate and Ecological Change Strategy. The post holder will have responsibility for the effective management of newly created woodland and grassland management on a broad range of Sites within Denbighshire. There will be a specific emphasis on practical conservation and access management and to provide opportunities for people and communities to become involved in management and enjoyment of the landscape and to ensure maintenance of its key features.

Principal Accountabilities and Responsibilities

1. Initiate, facilitate and co-ordinate projects that will contribute to the effective management of Countryside Sites including Sites of Scientific Interest and Special Protection Areas. Working in close collaboration and consultation with partner organisations, local communities and landowners ensuring effective day to day budget management of these projects.

2. Develop, monitor and maintain projects including many countryside sites and with an emphasis on newly created community sites for the benefit of biodiversity, access, recreation.

3. Provide Reports and updates on work where requested

4. Promote the understanding, appreciation and protection of Denbighshire's Countryside through talks and walks to community, business and school groups.

5. Establish and maintain links with outside bodies and groups in order to facilitate practical project management and visitor enjoyment.

6. Contribute to the Volunteer Programme and the Out and About program of events.

7. Contribute to the Council's Climate and Ecological Change Strategy by increasing the Council's Carbon Sequestration from the land it owns and operates by planting and maintaining trees and establishing species rich grassland

8. Contribute to the aim of becoming an ecologically positive council by protecting, managing and restoring DCC's land, as well as creating new spaces for nature so that ecosystems are as diverse, connected and large in scale as is possible.

Resources/Equipment/Material

- Direct area budget
- County fleet 4 WD vehicle and water bowser
- Specialist equipment for effective management/maintenance
- Local Authority Sites

Supervision/Management of People

- **Internal** - Required to work with and supervise Volunteers and placements
- **External:-** visitors, farmers, graziers and landowner, organizations, Community Councils, educational establishments, volunteers, contractors and other relevant organizations.

Knowledge, Skills, Training and Experience

- The post requires a person with a qualification in and experience of Countryside Management.
- An ability to relate well and deal with the public is important.
- A natural affinity for the Countryside and understanding of the underlying principles affecting its management is essential.
- Knowledge of habitat and landscape, conservation and access management is important.
- The post holder must be able to work alone and as a member of a team with experience in training of and supervision of labour, and in writing reports. Knowledge of the Welsh language is desirable.
- Knowledge and understanding of the climate change agenda

Special Working Conditions

- Provide cover at weekends as part of a Rota. Evening work as and when required
- The post holder may be required to work outside in remote areas and in adverse weather conditions

Employment Checks/ Specific Requirements

All new starters are required to undergo our standard safer recruitment checks; 2 satisfactory references covering 3 years employment, evidence of essential qualifications, evidence of Right to Work in the UK.

Denbighshire County Council recognises its obligations to safeguard children and adults together with preventing slavery and human trafficking and will do all in its power to prevent slavery and human trafficking within its business. Modern slavery can take many forms including the trafficking of people, forced labour, servitude and slavery.

Safeguarding is everyone's business and all Denbighshire employees are required to work in accordance with the Council's Child / Adult Safeguarding policies and procedures and have a duty to report any concerns which may be noted during the course of their duties and are asked to be alert to the signs of exploitation. Concerns should be raised via their Designated Safeguarding Manager in order that the Council can take prompt action when exploitation is identified.

Vision/Context

Denbighshire's natural environment is its greatest asset. This post seeks to protect, conserve and enhance this resource through the promotion of good relations between all interested parties, the provision of specialist advice and support, practical assistance and the provision of education and information. This is in line with the Authorities responsibilities under the National Park and Access to the Countryside Act 1949 The CRoW Act 2000 and other relevant legislation, including the Wellbeing of Future Generations Act (Wales) 2015. The post will make a significant contribution to Denbighshire County Councils Climate and Ecological Change Strategy and its commitment to become a net carbon zero and ecologically positive council by 2030.

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL PERSON SPECIFICATION

The Person Specification sets out the skills, knowledge and experience that are considered to be necessary to carry out the duties of the post effectively. It will be used in the short-listing and interview process for this post. You should demonstrate on your application form how you meet these criteria as you will only be shortlisted if you meet all of the essential criteria (and desirable criteria where applicable).

Post Title:	**Countryside Ranger (North)**
Service	**Environment**
Grade:	**5**

CRITERIA	**ESSENTIAL**	**DESIRABLE**	**METHOD OF ASSESSMENT** Application Form / Interview / Presentation / References etc
1. EDUCATION & QUALIFICATIONS	Must have completed a period of study in Countryside or Environmental field – Degree or HND level	Practical training in first aid, practical conservation skills.	Application Form, Interview, References
2. RELEVANT EXPERIENCE	Experience in Practical conservation or landscape management	Experience of dealing with members of the public.	Application Form, Interview, References
3. JOB RELATED KNOWLEDGE & SKILLS	Affinity for the Countryside and rural affairs. Good knowledge of the climate change agenda.	Some experience of working with volunteers	Application Form, Interview, References

4. PERSONAL QUALITIES	Good written communication skills Ability to work well in a team	Ability to work on own initiative	Application Form, Interview, References
5. OTHER REQUIREMENTS	Empathy with the Welsh Language and Culture Demonstrate excellent interpersonal skills	Ability to speak through the medium of Welsh	Application Form, Interview, References